



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 26 Mawrth 2023

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Cydymdeimlad, Cofion, a Chyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Tudor Davies (Llanfair) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei frawd, Alun. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.

Anfonwn ein cofion at y cleifion i gyd a hyderwn eich bod yn profi daioni'r Arglwydd yn eich cynnal yn eich angen. Mae'n dda cael adrodd fod Dewi Williams (Llanefydd) adref o'r ysbyty erbyn hyn ac yn gwella ar ôl ei lawdriniaeth. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn i ti Dewi ac i bawb arall sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn. Fe'ch cyflwynwn oll i ofal Duw gan ofyn iddo gysgodi drosoch a thros eich anwyliaid yr un modd.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Glyn Davies (Saron) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig yr wythnos hon. Diolchwn i Dduw amdanoch, a hyderwn y byddwch yn parhau i gael nerth ac iechyd am flynyddoedd lawer eto.

Llongyfarchiadau hefyd i Elwyn a Julie Jones (Llanefydd) ar achlysur dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol. Pob dymuniad da i chi.

Gŵyl Llanw 2023

Eleni, bydd yr Ŵyl Gristnogol 'Llanw' yn cael ei chynnal yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog rhwng Ebrill 10^{fed}-13^{eg}. Cynhelir oedfa pob bore a phob nos, a bydd seminarau amrywiol yn cael eu cynnal yn ystod y dydd. Y prif siaradwr nos Lun, nos Fawrth a nos Fercher fydd Stuart Bell, a bydd John a Rachel Settatree, Simeon Baker a Nan Wyn Powell-Davies yn arwain yn y boreau yn eu tro. Bydd gwaith plant a ieuencid yn ystod yr oedfaon yn y bore a'r hwyr, a bydd cyfle hefyd i fanteisio ar gyfleusterau'r gwersyll yn ystod y dydd. Wedi oedfa'r nos bydd cyfle i ymuno mewn gweithgareddau anffurfiol pellach neu gyfle i ymlacio a chymdeithasu.

Cymraeg fydd iaith holl weithgaredd a chyfarfodydd Llanw ond bydd offer cyfieithu ar gael yn y prif oedfaon. Mae croeso i bawb ymuno. Ewch i'r wefan llanw.org/llanw-23/ i gael mwy o fanylion ac er mwyn archebu tocynnau.

Gwaith cwrs

Gwahoddir yr Ysgolion Sul i roi'r gwaith a wneir ar y Sul mewn llun neu mewn unrhyw ffurf/gyfrwng arall i greu arddangosfa yng Nghyfarfod Gwobrwyo'r Ysgol Sul a gynhelir yng Nghapel y Fron, Dinbych nos Wener Mai 26^{ain} am 6.30 yr hwyr. Bydd angen mynd â'r gwaith i Gapel y Fron erbyn 5:45 yr hwyr ar y noson wobrwyo er mwyn iddo gael ei osod ar y byrddau.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (5^{ed}), plis.

Brenin Gostyngedig

“Pwy ti'n feddwl wyt ti?”. “Wyt ti'n gwybod efo pwy wyt ti'n siarad?” Dw i'n cofio athro yn atgoffa disgybl o'i le a'i statws gyda'r union eiriau yna. Geiriau ydyn nhw sydd wedi eu defnyddio lawer gwaith gan rai sydd eisiau mynegi eu safle a'u hawdurdod. Mae hwn yn ffordd o ddyrchafu eich hun pan mae'n amlwg eich bod yn colli rheolaeth. Dro arall defnyddir y geiriau yma pan mae rywun eisiau amddiffyn ei hun rhag cael cam.

Os oedd gan unrhywun hawl i ddefnyddio'r geiriau yma, yr Arglwydd Iesu Grist oedd hwnnw pan gafodd ei arestio a'i gymryd o ardd Gethsemane i gael ei gamdrin a'i wawdio gan yr awdurdodau a'r dorf. Dyma beth o'r hanes:

“Yna cymerodd milwyr y rhaglaw Iesu i'r Praetoriwm a chynnull yr holl fintai o'i gwmpas. Wedi diosg ei ddillad, rhoesant glogyn ysgarlad amdano; plethasant goron o ddrain a'i gosod ar ei ben, a gwialen yn ei law dde. Aethant ar eu gliniau o'i flaen a'i watwar: "Henffych well, Frenin yr Iddewon!" Poerasant arno, a chymryd y wialen a'i guro ar ei ben. Ac wedi iddynt ei watwar, tynasant y clogyn oddi amdano a'i wisgo ef â'i ddillad ei hun, a mynd ag ef ymaith i'w groeshoelio.” (Mathew 27:27-31).

Mae'n hawdd camfarnu Iesu heddiw hefyd. Ond sylwch ar ymateb Iesu. Does yna ddim ymdrech i ddyrchafu ei hun, dim ond gostyngeddwydd tawel geir ganddo. Gwelwn ei fod yn Un oedd yn fodlon dioddef dros bobl eraill. Mewn gwirionedd, roedd yna frenin mwy o lawer na Brenin yr Iddewon yma. Ef oedd Brenin Nef a'r holl greadigaeth. Roedd ganddo'r hawl i edliw eu camgymeriad a'u hamarch. Roedd ganddo'r hawl i'w gosod ar brawf a'u cosbi am eu gweithredoedd. Mae'r un hawl ganddo heddiw. Duw gostyngedig yw Iesu. Un a ddewisodd ddweud dim. Un a ddewisodd beidio â dinistrio ei elynion ond yn hytrach agor ffordd cymod i'r rhai a gredodd.

Yn ei ostyngeddwydd tawel a'i barodwydd i farw y deallwn ei gariad tuag atom. Gelwir arnom ninnau i'w dderbyn a'i ddilyn mewn gostyngeddwydd a diolchgarwch a rhoi ei le cywir iddo yn ein bywyd fel Arglwydd a Gwarddwr y Pasg hwn.

Y Parch. Robert O. Roberts

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Mawrth 26^{ain}

- **Oedfa i'r Daith yn Llanfair** am 10:30 o dan arweiniad Mr Rhys Dafis. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog am 2:00.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac **Oedfa Deuluol yn Llanefydd** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad y Parch. Aneurin Owen.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn.

Dydd Mawrth, Mawrth 28^{ain}

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Iau, Mawrth 30^{ain}

- **Hwyl Pnawn Iau (oedran derbyn – Bl.6)** – Parti Diwedd Tymor yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala. Hwn fydd y cyfarfod olaf cyn yr haf.

Dydd Sul, Ebrill 2^{il}

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Dafydd Job.
- **Oedfa i'r Daith yn Groes** am 10:30 o dan arweiniad y Parch. Gwyndaf Jones.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6:00 gyda Huw Tan y Graig yn arwain a'r Parch. Andras Iago yn pregethu.

Dydd Mawrth, Ebrill 4^{ydd}

- **Paned a Sgwrs** yn Festri Llansannan am 1:30 y prynhawn. Croeso i bawb.

Dydd Gwener, Ebrill 7^{fed}

- **Oedfa Bore'r Groglith i'r Fro** – Oedfa gymun yn Llanefydd am 10.30. Croeso i bawb.

Dydd Sul, Ebrill 9^{fed}

- **Oedfa yn Llanfair** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan a bydd Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog am 2:00.
- **Oedfa Thema yn Henllan** am 9:30, ac **Oedfa Deuluol Sul y Pasg yn Llanefydd** am 11:00 o dan arweiniad Mrs Nia W. Williams.

Rhaghysbys

- Cynhelir oedfa arbennig **nos Sul, Ebrill 30^{ain}** yn Llansannan am 6:00 yr hwyr i ffarwelio ac i ddiolch i Rhodri am ei wasanaeth dros y blynyddoedd inni yma ym Mro Aled. Bydd croeso cynnes i bawb i'r oedfa.

* Pleidleisio *

Er gwybodaeth, bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol mewn un oedfa ymhob capel yn yr Ofalaeth, naill ai ar Ebrill 16eg neu'r 23ain. Trwy bleidlais ddirgel, byddant yn gofyn a ydych o blaid galw Gweinidog i fugeilio'r eglwys, a bydd pleidlais ddirgel arall yn cael ei chynnal er mwyn dewis UN aelod (nad yw yn flaenor nac yn ddiakon) i gynrychioli eich eglwys ar y Pwyllgor Bugeiliol (os bydd y Pwyllgor yn dod yn weithredol). Cewch enwi y nifer a fynnwch, ond yr aelod fydd wedi derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau fydd yn cynrychioli eich eglwys ar y Pwyllgor Bugeiliol gyda'r blaenoriaid a'r diaconiaid, a chynrychiolwyr o'r Henaduriaeth a'r Cwrdd Chwarter. Sylwch isod ar ddyddiad y pleidleisio yn eich eglwys chi:

Ebrill 16^{eg}

- **Cefn Berain (9:30)**
- **Saron (10:00)**
- **Groes (11:00)**
- **Eglwys Unedig Llansannan (11:00)** Yn ychwanegol, bydd pleidlais ddirgel arall hefyd yn cael ei chynnal i ofyn a yw'r eglwys yn bleidiol i ethol mwy o flaenoriaid.

- **Nantglyn (2:00)**
- **Hiraethog (5:30)**

Ebrill 23^{ain}

- **Llanefydd (9:30)**
- **Soar, Llanfair Talhaiarn (10:00)**
- **Cefn Meiriadog (10:30)**
- **Henllan (11:00)** Yn ychwanegol, bydd pleidlais ddirgel arall hefyd yn cael ei chynnal i ofyn a yw'r eglwys yn bleidiol i ethol mwy o flaenoriaid.

Casgliad Cenhadol Chwiorydd y Gogledd (EBC)

Os ydych yn dymuno cefnogi gwaith cenhadol yn lleol a thramor, bydd trysorydd eich eglwys yn ddiolchgar o dderbyn eich cyfraniad **erbyn Dydd Sul, Ebrill 9^{fed}**, os gwelwch yn dda. (**Nodyn i'r Trysoryddion:** A wnewch chi roi gwybod i Mair erbyn **Ebrill 11eg** gyfanswm casgliad eich eglwys, ac yna trosglwyddo'r arian i Mair naill ai ar-lein, neu trwy anfon siec yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', mor fuan â phosib wedi hynny, os gwelwch yn dda?)